

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) - DYDD IAU, 22 IONAWR 2026

COFNODION CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD
DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD IAU, 22 IONAWR 2026 YN 10:00

Presennol

Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

J Llewellyn-Hopkins

J E Pratt

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

Nimi Chandrasena
Kirsty Evans
Michael Pitman

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth
Uwch Swyddog Trwyddedu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau

Gwahoddedigion

Y Cynghorydd Ian Williams – Aelod Etholedig ac Aelod Ward
Cynghorydd Hengastell - Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Fiona Colwill – Swyddog Trwyddedu, Heddlu De Cymru
Matthew McDonald - Swyddog Trwyddedu, Heddlu De Cymru
Mr Pirunthuja Satheeswaran – Ymgeisydd
Mr Suresh Kanapati - Cynrychiolydd ARKA Licensing

Datganiadau o Fuddiannau

Datganodd Aelodau'r Pwyllgor fuddiant personol gan eu bod yn gweithio ochr yn ochr ag un o'r gwrthwynebwyr, y Cynghorydd Ian Williams, fel Aelodau Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

28. Rhoi Trwydded Safle Siopwr Teuluol - 16 Heol y Bont-faen Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3DA

Decision Made	<p>Ar ddechrau'r gwrandawriad, roedd gan yr Is-bwyllgor adroddiad ger ei fron gan Swyddog Trwyddedu'r Cyngor a oedd yn cynnwys y cais ar gyfer y drwydded a gwrthwynebiadau ysgrifenedig y gwrthwynebwyr.</p> <p>Amlinellodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu yr adroddiad, a'i bwrpas oedd penderfynu ar gais am roi trwydded safle ar gyfer Family Shopper 16 Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3DA. a gyflwynwyd gan Mr Pirunthuja Satheeswaran a Mr Suresh Kanapati.</p> <p>DEUNYDD GERBRON YR IS-BWYLLGOR</p> <p>Roedd gan yr Is-bwyllgor adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu ger ei fron, ynghyd â gwrthwynebiadau a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Ian Williams a phreswlydd lleol dienw a gynrychiolwyd gan Heddlu De Cymru. Daeth yr ymgeisydd a Heddlu De Cymru i gytundeb ar osod amodau ychwanegol pe bai'r drwydded hon yn cael ei rhoi sef:-</p> <p>Cyffredinol Bydd Deiliad y Drwydded Safle a'r Goruchwilydd Safle Dynodedig yn ymgysylltu'n gadarnhaol â Heddlu De Cymru a Phartneriaid Amlasiantaethol.</p> <p>Atal Trosedd ac Anrhefn Ni ddylid gwerthu alcohol i bersonau y gwyddys eu bod yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu i bersonau y gwyddys eu bod yn prynu alcohol ar gyfer y personau hynny sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.</p> <p>Dywedodd Cynrychiolydd ARKA Licensing fod y siop, busnes teuluol, yn cael ei rhedeg gan ŵr, gwraig ac ychydig o aelodau o staff y maent yn eu cyflogi. Roedden nhw wedi bod yn gweithredu o dan drwydded dros dro ers 18/12/25 ac eisoes wedi bod yn gwerthu alcohol ymysg eitemau eraill. Cyfeiriodd at dudalennau 17-18 lle roeddent wedi manylu ar eu bwriadau o dan Amcanion Trwyddedu. Aeth y cynrychiolydd ymlaen i fynd i'r afael â'r gwrthwynebiadau a godwyd gan ddweud y gallant gadarnhau na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau oherwydd eu gweithrediad wrth weithredu o dan drwydded dros dro.</p>
---------------	--

Dywedodd hefyd fod yr ymgeisydd yn bwriadu gweithio o fewn amserlenni gweithredu a fyddai'n atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dywedodd nad gwerthu alcohol oedd prif ran eu busnes, ac roedd yn deall mai'r prif wrthwynebiad oedd ynglŷn â'r oriau agor estynedig, a thrwy hynny amser estynedig y gallai'r cyhoedd brynu alcohol.

Gofynnodd Aelod pam fod alcohol yn cael ei werthu yn ystod yr oriau gweithredu estynedig yr oedd y busnes yn gwneud cais amdanynt. Dywedodd Cynrychiolydd ARKA fod eu cais am oriau gweithredu estynedig lle gallent werthu pob cynnyrch, gan gynnwys alcohol.

Gofynnodd Aelod am gadarnhad o'r oriau gweithredu presennol o dan y Drwydded Dros Dro, ac ymatebodd y cynrychiolydd fod y siop ar agor rhwng 7am ac 11pm.

Cafwyd trafodaeth bellach rhwng yr Aelodau a'r cynrychiolydd ynglŷn â gwasanaethu unigolion ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Darllenodd cynrychiolwyr Heddlu De Cymru lythyr gan wrthwynebydd yn nodi mai eu pryder oedd yr oriau gweithredu estynedig, a'r canlyniadau o roi trwydded i'r busnes i weithredu yn ystod oriau estynedig, a fyddai'n arwain at sefyllian, taflu sbwriel, sŵn a niwsans. Roedd y gwrthwynebydd hefyd yn teimlo y byddai rhoi trwydded o'r fath yn gosod cysail i sefydliadau eraill sy'n gwerthu alcohol yn yr ardal. Roedd ganddynt bryderon ynglŷn â lleoliad y sefydliad, gan ei fod mewn ardal breswyl yn agos at loches i fenywod ac ysgolion.

Derbyniwyd gwrthwynebiadau hefyd gan y Cynghorydd/Aelod Ward Etholedig ar gyfer ward Hengastell lle mae'r eiddo wedi'i leoli. Dywedodd yr Aelod Ward/Cynghorydd ei fod yn cynrychioli pryderon ei gymuned, ac am herio cais y siop am gael gweithredu o fewn oriau estynedig, a thrwy hynny werthu alcohol ar ôl i bob sefydliad arall gau ar gyfer busnes. Soniodd am yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar y gymuned sy'n cynnwys preswylwyr oedrannus, teuluoedd ifanc a thai amlfeddiannaeth. Gofynnodd am ystyriaeth i'r effaith andwyol o ganiatáu oriau gweithredu estynedig wrth wneud penderfyniad i ganiatáu'r cais.

Cynhaliwyd trafodaeth am oriau gweithredu siopau eraill gerllaw sy'n gwerthu alcohol a hefyd oriau gweithredu tafarndai yn agos at y siop yn y cais.

Yna, gadawodd yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyd y cyfarfod gan ganiatáu i'r Pwyllgor drafod yr wybodaeth a gyflwynwyd iddynt.

PENDERFYNWYD

PENDERFYNIAD

Roedd yn ofynnol i'r Is-bwyllgor, wrth wneud ei benderfyniad, hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol ac, yn benodol, atal trosedd ac anhrefn a sicrhau diogelwch y cyhoedd. Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr holl sylwadau a wnaed gan yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr. Gwnaeth yr Is-bwyllgor hefyd ystyried bod yr Heddlu, ar ôl trafod gyda'r ymgeisydd a chytuno ar amodau newydd ar y drwydded, bellach wedi'u bodloni. Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd nad oedd unrhyw sylwadau gan unrhyw gorff statudol arall i gynnwys diogelu'r cyhoedd.

Ni ystyriodd yr Is-bwyllgor y nifer o faterion a godwyd gan y gwrthwynebwyr gan nad oeddent yn sylwadau perthnasol dan y Ddeddf Drwyddedu. Ni chafodd y materion canlynol eu hystyried:-

Polisi Effaith Gronnol – Nid oes gan y Cyngor Bolisi Effaith Gronnol ar hyn o bryd, ac roedd y polisi blaenorol yn ymwneud ag ardal benodol yng nghanol y dref yn unig.

Galw Masnachol - Nid yw'r cwestiwn o angen neu alw masnachol am safleoedd trwyddedig yn ystyriaeth berthnasol dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Dim ond materion sy'n effeithio ar yr amcanion trwyddedu y gall yr awdurdod eu hystyried.

Materion Parcio - Nid yw'r rhain yn sylwadau perthnasol dan y Ddeddf Drwyddedu.

Gwastraff Masnachol - Nid yw hwn yn sylwad perthnasol dan y Ddeddf Drwyddedu.

Cyfeiriad at broblemau mewn safle arall yn yr ardal - Roedd yn ofynnol i'r Is-bwyllgor benderfynu ar y cais ar ei rinweddau, ac nid yw'n ystyried problemau mewn safleoedd trwyddedig eraill.

Er bod yn rhaid i benderfyniadau fod wedi'u seilio ar dystiolaeth, mae'r llysoedd wedi egluro bod hyn yn cynnwys asesiad rhesymol yr awdurdod o risg yn y dyfodol yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael.

Ni ddylai'r Is-bwyllgor trwyddedu osod amodau yn seiliedig ar dybiaethau yn unig, ond nid yw'n gwahardd ystyried niwed posib yn gyfan gwbl.

Roedd yn ofynnol i benderfyniadau fod yn rhesymol ac yn gymesur, ac nid oedd yr Is-bwyllgor yn gwahardd ystyried niwed posib yn gyfan gwbl. Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr agoswydd at yr ardal breswyl a natur y gweithgareddau trwyddedadwy arfaethedig. Mae'r cais hwn ar gyfer siop a'r amser y gofynnwyd amdano ar gyfer agor oedd rhwng 06:00 a 00:00 o'r gloch, sydd wedi lleihau gan awr ar gais yr Is-bwyllgor. Felly, gall Awdurdodau Trwyddedu wrthod cais neu osod amodau os oes "rheswm da i dybio" y gall anhrefn neu niwed arall ddigwydd, hyd yn oed os nad oes unrhyw faterion cyfredol yn bodoli. Mae gan drigolion yr hawl i fwynhau eu cartrefi heb aflonyddwch gormodol.

Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr oriau arfaethedig yn briodol ar gyfer yr ardal benodol. Pan wneir sylwadau

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) - DYDD IAU, 22 IONAWR 2026

	<p>perthnasol, bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn penderfynu a ydynt yn cytuno â nodweddu'r ardal, gan dynnu ar yr wybodaeth a gyflwynir a'u gwybodaeth leol eu hunain. Roedd yr Is-bwyllgor yn ymwybodol bod y safle hwn hefyd yn agos at loches i fenywod.</p> <p>Ar ôl ystyried yr uchod i gyd, penderfynodd yr Is-bwyllgor roi'r drwydded yn amodol ar yr amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt gyda'r Heddlu, a phenderfynodd hefyd y byddent yn rhoi'r drwydded am yr oriau rhwng 07:00 ac 23:00 o'r gloch yn unig.</p> <p>Mae'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar agosrwydd y safle at ardal breswyl a bod lloches i fenywod hefyd gerllaw.</p>
Date Decision Made	22/01/26

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen [hon](#)

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:57.